# Ein Blaenoriaethau a'r Heriau ar gyfer 2025/26 a Thu Hwnt

Mae'n bwysig i'r sefydliad, nid yn unig adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n trigolion a'n busnesau, a'r effaith y maent yn ei chael, ond rhaid inni hefyd sicrhau bod ein prosesau a'n systemau mewnol ein hunain yn gweithio'n dda, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gyda rheolaethau, systemau a phrosesau cadarn yn cefnogi pob agwedd ar weithgaredd y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cynnal amryw o ymarferion monitro yn erbyn y gweithgareddau a ystyriwyd gennym yn feysydd i'w gwella neu eu datblygu yn adroddiad hunanasesu'r llynedd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Busnes priodol ac yn cael eu monitro'n chwarterol gan y Cyfarwyddiaethau ac yn cael eu hadrodd i'r Tîm Gweithredol. Lle mae meysydd yr ydym yn teimlo nad ydynt wedi gwella fel y bwriadwyd, byddwn yn parhau i fonitro'n agos dros y flwyddyn nesaf, i helpu i gyflawni ein huchelgais i ddod yn Gyngor rhagorol.

Yn dilyn adolygiad, rydym wedi defnyddio ein fframwaith i gynnal hunanasesiad sefydliadol, gan ddod i gasgliadau a nodi'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd, wrth symud ymlaen. Bydd cynnydd yn erbyn ein hymrwymiadau yn cael ei fonitro'n flynyddol wrth symud ymlaen ac mae ein canfyddiadau allweddol ar gyfer 2024/25 wedi'u cynnwys yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn. Rydym hefyd wedi nodi nifer o heriau yr ydym yn eu hwynebu sy'n gysylltiedig â phob un o'n Hamcanion Llesiant. Er mwyn symud y meysydd hyn ymlaen, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer 2025/26 a thu hwnt. Mae'r dull cynllunio blynyddol hwn yn golygu y bydd ein cynlluniau wrth symud ymlaen yn ailadroddus ac yn hyblyg, gan ystyried unrhyw fentrau, heriau a chyfleoedd newydd sydd wedi codi y gellir ymateb iddynt, drwy gydol oes y Cynllun Corfforaethol.

Drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn defnyddio ein cynllunio busnes i fonitro a dangos ein cynnydd yn rheolaidd, er mwyn dangos llwyddiant ein huchelgeisiau. Bydd hyn yn ganolog i gyflawni ein dyheadau.

